## 1 Polisi Dwyieithrwydd

Mae'r Rheoliad hwn yn eiddo i Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, a dylai'r corff hwn gyflwyno gwelliannau i'r Cyfarfodydd Cyffredinol neu'r CCB, drwy'r Swyddog Diwylliant Cymraeg a Llywydd UMCA, i'w cadarnhau.

**1.1** Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMAber) yn cydnabod y Gymraeg a'r Saesneg fel ieithoedd swyddogol ar gyfer ei waith, ac mae'n gwneud pob ymdrech i greu amgylchedd sy'n gyfartal i siaradwyr y naill iaith a'r llall. Mae hefyd yn ceisio hyrwyddo'r defnydd ac ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg, gan roi blaenoriaeth iddynt yn ei holl waith.

### 1.2 Gweithrediad

#### 1.2.1 Cyrhaeddiad

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob agwedd o waith UMAber, ac mae'n ymwneud â phopeth sy'n digwydd o fewn eiddo UMAber, unrhyw ddosbarthu a wneir gan UMAber ar ran trydydd parti, ac unrhyw ddigwyddiad a drefnir neu a gynhelir gan UMAber.  Ym mhob dogfen ddwyieithog, rhaid rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg.

#### 1.2.2 *Ysgrifenedig*

i. Rhaid i bob dogfen swyddogol fod yn ddwyieithog.

ii. Rhaid i bob gohebiaeth swyddogol fod yn ddwyieithog, er y gall ymatebion i ohebiaeth fod yn iaith y sawl a ysgrifennodd y gwreiddiol. Dylai UMAber hysbysebu'r ffaith ei fod yn derbyn gohebiaeth yn y naill iaith a'r llall.

iii. Rhaid i bob hysbyseb a gynhyrchir gan UMAber, neu unrhyw faes o UMAber, fod yn ddwyieithog.

iv. Caiff pob poster ei gynhyrchu'n ddwyieithog.

v. Pan fo'r neges yn un frys (h.y. argyfwng iechyd) a bod pob ymdrech wedi cael ei gwneud i gael gwaith wedi'i gyfieithu, mae gan yr awdur yr hawl eithriadol i gyhoeddi deunydd yn yr iaith o'u dewis.

#### 1.2.3 Galwadau Ffôn

i. Dylid ateb y ffôn yn nerbynfa UMAber â chyfarchiad dwyieithog, gan ddefnyddio'r Gymraeg yn gyntaf.

ii. Os yw'r sawl sy'n galw'n dymuno siarad mewn iaith nad yw'r derbynydd yn ei siarad, yna dylid cynnig yr opsiwn iddynt i siarad â rhywun sy'n siarad yr iaith o'u dewis, lle mae hynny'n bosib.

#### 1.2.4 Gwefannau

Bydd UMAber yn gweithredu gwefannau dwyieithog bob amser.

#### 1.2.5 Cyfryngau Cymdeithasol

i. Mae Cyfryngau Cymdeithasol yn ffurf o ohebiaeth swyddogol, felly rhaid i holl lwyfannau cyfryngau cymdeithasol UMAber (Facebook, Twitter, blogiau a.y.b.) fod yn ddwyieithog, ac eithrio cynnwys a gaiff ei rannu.

**1.2.6 Clybiau a Chymdeithasau**

i. Os yw aelod o glwb neu gymdeithas yn dewis derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, rhaid i'r clwb neu gymdeithas ddarparu gohebiaeth ddwyieithog.
ii. Cynigir hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth i aelodau o bwyllgorau clybiau a chymdeithasau ar weithrediad ymarferol y polisi hwn ar ddechrau pob blwyddyn academaidd. Bydd UMAber yn darparu templedi dwyieithog yn ystod hyfforddiant er mwyn hwyluso dwyieithrwydd.

**1.2.7 Cyfarfodydd**

i. Rhaid i bob cyfarfod ffurfiol at ddibenion gwneud penderfyniadau, sy'n cael eu hysbysebu'n gyhoeddus, gan gynnwys cyfarfodydd cyffredinol a chyfarfodydd cyngor UMAber, gael eu cyfieithu.

**1.2.8 Deunydd o Ffynonellau Allanol**

i. Yn ogystal â hyrwydo dwyieithrwydd o fewn UMAber, dylai UMAber hefyd ddefnyddio ei gysylltiadau ag asiantaethau eraill i hybu dwyieithrwydd.
ii. Lle mae deunydd allanol yn uniaith, dylai UMAber wneud cais am gyfieithu safonol. Os yw safon y cyfieithu a ddarperir gan drydydd parti o ansawdd gwael, mae gan UMAber yr hawl i wrthod defnyddio neu arddangos y deunydd.
iii. Ni fydd UMAber fel arfer yn derbyn nac yn arddangos deunydd uniaith (mae'r eithriadau i'r rheol hon i'w gweld isod.

**1.3 Safonau cyfieithu**

**2.3.1** Wrth gadw at y polisi hwn, mae UMAber yn disgwyl y caiff safon benodol ei chynnal o ran cyfieithu i'r Gymraeg.

**2.3.2** Nid yw safon gwasanaethau cyfieithu ar-lein, e.e. Google translate, yn cyrraedd safonau derbyniol, ac ni ddylid eu defnyddio.

**1.4 Eithriadau**

**1.4.1 Mudiadau Gwirfoddol / Elusennau (Am Ddim)**

Caiff unrhyw ddeunydd uniaith boed yn Gymraeg neu'n Saesneg, mae mudiad gwirfoddol neu elusennol am ei ddosbarthu, ei gyfeirio, at ddisgresiwn y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

**1.4.2 Mudiadau Masnachol (Am Ddim)**

Ni chaiff deunydd uniaith gan fudiadau masnachol ond ei dderbyn os yw'r Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu'n teimlo y caiff yr aelodaeth eu gosod dan anfantais ddifrifol drwy beidio â chael mynediad i'r wybodaeth honno.

#### 1.4.3 Pwynt Gwerthu / Deunydd Hyrwyddo

Caiff deunydd a ddarperir gan fudiadau allanol ar gyfer hysbysebu nwyddau a gyflenwir drwy UMAber eu heithrio rhag y polisi dwyieithrwydd, serch hynny, os oes deunydd dwyieithog ar gael, caiff ei arddangos mewn dull priodol.

#### 1.4.4 Teitlau

Wrth hysbysebu darlith, araith, trafodaeth, cyngerdd a.y.b. gellir gadael y teitl yn yr iaith wreiddiol. Dylai pob gwybodaeth arall ddilyn gofynion y polisi hwn.

### 1.5 Gwersi Cymraeg

**1.5.1** Mae UMAber yn cydnabod nad yw'r ddarpariaeth o gyfieithu cystal â gweithredu mewn amgylchedd lle mae'r aelodau'n ddwyieithog, felly byddwn yn darparu gwersi Cymraeg am ddim i aelodau ar lefel dechreuwyr, canolig ac uwch.

**1.5.2** Caiff y rhain eu cydlynu gan y Swyddog Diwylliant Cymraeg a Llywydd UMCA, fydd yn sicrhau bod ansawdd yr addysgu o safon dderbyniol, a chaiff ei darparu gan Diwtoriaid Cymraeg UMCA.

### 1.6 Dehongliad a Gorfodaeth

**1.6.1** Dylid hysbysu'r Swyddog Diwylliant Cymraeg a Llywydd UMCA a'r Prif Weithredwr ynglŷn ag unrhyw achos o weithredu'n groes i'r polisi hwn.
**1.6.2** Mae disgwyl i staff UMAber gydymffurfio â'r polisi hwn. Dylid gwneud staff yn ymwybodol o'r Polisi Dwyieithrwydd yn ystod y cyfnod sefydlu, drwy hyfforddiant rheolaidd, a'u hysbysu ynglŷn ag unrhyw newidiadau yn y polisi hwn.

### 1.7 Gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion

**1.7.1** Ymdrinnir ag unrhyw achosion o weithredu'n groes i'r polisi hwn drwy'r broses Gwynion, Disgyblu ac Apeliadau.
**1.7.2** Caiff troseddau o flynyddoedd blaenorol eu hanwybyddu, oni fyddant yn cael eu cyflawni gan yr un person.

### 1.8 Adolygu a Newidiadau

**1.8.1** Dylid adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd (o leiaf unwaith y flwyddyn, a pha bryd bynnag y gwneir cais am eglurdeb) a'i werthuso gan y Swyddog Diwylliant Cymraeg a Llywydd UMCA, a bod unrhyw newidiadau'n cael eu hargymell i'r Cyngor neu'r CCB.
**1.8.2** Caiff unrhyw aelod gynnig eu gwelliannau eu hunain i'r CCB neu'r Cyngor.